

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Lun 21/3/2016
Minutes of the Full Council meeting held on Monday evening 21/3/2016

Presennol / Present: Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Elfed Jones, David Livingstone, Julia Dobson, Tony Hughes, Carys Davies, Jack Longman

Cynghorwyr Sirol / County Councillors: Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled M Jones

Yn Bresennol / In Attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation)

Ymddiheuriadau / Apologies: Rose Griffiths, Dei Owens, Brian Potter Cyng/Cllr Richard Jones, Richard Foxhall (Horizon)

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol. Cafwyd llythyr o ymddeoliad gan Rose Griffiths. Cytuno ysgrifennu ati i ddiolch iddi am ei hymdrechion dros y blynyddoedd. Gofynnwyd i'r Clerc rhoi gwybod i'r Cyngor Sir bod sedd wag er mwyn dechrau ar y broses o'i lenwi.

Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance. A letter of resignation has been received from Rose Griffiths. Agreed to write to her to thank her for her efforts over the years. The Clerk was asked to contact the County Council to inform them of the vacancy.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cyng/Cllr Wil Hughes – materion cynllunio / *planning matters.*

Julia Dobson – materion yn ymwneud ag Wylfa Newydd / *matters relating to Wylfa Newydd.*

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones eiliwyd gan Carys Davies.

The minutes were accepted as a true record. Proposed by Elfed Jones, seconded by Carys Davies.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 10-12 Stryd Fawr / 10-12 High Street

Nid oes diweddariad gan y cyfreithiwr / *There is no update from the solicitor.*

4.2 Llwybr Carrog Footpath

Mae'r bont wedi ei gosod erbyn hyn gyda ychydig o waith i'w gwblhau er mwyn cloi'r prosiect.

The bridge is now in place with some work to be completed as soon as possible to complete the project.

4.3 Mynwent Y Rhyd Cemetery

Mae peiriannwyr wedi ymweld a'r safle ac mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted a phosib.

Engineers have been on site and work is expected to be completed as soon as possible.

5 Fferm Arae Haul / Solar Farm

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddianus nos lau Mawrth 17 yn y Neuadd Bentref gyda nifer o aelodau'r gymuned a chymunedau cyfagos yn bresennol. Cafwyd gyflwyniad gan Mr Elfed Williams ar ran Countryside Renewables, ac roedd cyfle i'r cyhoedd gael gofyn cwestiynnau a nodi eu pryderon.

Nodwyd bod y cwmni yn cynnig £200k o fudd cymunedol erbyn hyn ac y bydd cyfarfod gyda cyfarwyddwyr y cwmni yn fuan i drafod telerau y fath daliad.

Trafodwyd y cais yn fanwl gan nodi pryderon am maint y datblygiad, effaith gweledol y prosiect a'r posibilrwydd o lygredd swm o'r unedau trawsnewid.

Cytuno y dylai unrhyw arian budd cymunedol fod ar gael i'r gymuned lleol sut bynnag bydd y Cyngor yn pleidleisio ar y cynlluniau. Os daw'r prosiect dylai'r gymuned gael budd uniongyrchol ohono.

Fe gynnigodd Julia Dobson bod y Cyngor yn cefnogi barn y gymuned ac yn gwrthwynebu'r datblygiad gan nodi pryderon am maint y datblygiad a theimlad cryf o fewn y gymuned. Eilwyd y cynnig gan Dave Livingstone.

Fe gynnigodd Elfed Jones bod y Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y budd cymunedol gan bod y datblygiad yn debygol o apelio os na fyddent yn llwyddianus a'u cais cynllunio. Teimlai na fyddai arian i'r gymuned ar gynnig drwy'r broses apel. Nid oedd eilydd.

Cafwyd pleidlais ar sail cynnig Julia Dobson. Roedd pedwar aelod yn cefnogi ei chynnig i wrthwynebu'r datblygiad a dau aelod yn gefnogol o'r prosiect. Nid oedd pleidlais o'r Gadair.

A successful public meeting was held at the Village Hall on Thursday March 17 with a number of community members in attendance and also people from neighbouring communities. Mr Elfed Williams gave a presentation on behalf of Countryside Renewables, and members of the public were given an opportunity to ask questions and voice their concerns.

It was noted that the company are now offering £200k in community benefit and that a meeting with the directors would be held to discuss the conditions of such funding.

The application was discussed in detail noting concerns with regard to the size of the development, visible impact and potential noise from the transformer units.

It was agreed that any community benefit funding should be made available to the community regardless how the Council votes on the plans. If the project goes ahead, then the community should have a direct benefit from it.

Julia Dobson proposed that the Council supports the views of the community and objects to the development on the grounds that it is too big and the strong feelings within the community. The proposal was seconded by Dave Livingstone.

Elfed Jones proposed that the Council support the development on the basis that such a development will appeal the planning decision if not successful. He felt that no community benefit would be made available through the appeal process. The proposal was not seconded.

A vote was held on the basis of Julia Dobson's proposal. Four members were in favour of the proposal to object the development and two members were supportive of the project. The Chair did not vote.

6 **Wylfa Newydd**

6.1 **Diweddariad / Update**

Cafwyd grynodedb gan Cyng Aled M Jones o'r gweithgareddau ddiweddar yn absenoldeb Richard Foxhall. Nodwyd bod uwch-swyddogion wedi eu penodi ar gyfer y safle i weithio ochr yn ochr ag Alan Raymant a Greg Evans. Diolchwyd i'r cwmni am gynnal sesiwn gwybodaeth ym maes parcio Treglele. Nid oedd ymateb swyddogol ynglyn a phryderon am lorïau yn gor-yrru ac eraill heb orchuddio eu llwyth.

Cllr Aled M Jones gave a brief overview in the absence of Richard Foxhall. It was noted that senior officers have been appointed for the site to work alongside Alan Raymant and Greg Evans. The company was thanked for arranging a surgery in the car park at Treglele. There is no official update regarding the speeding lorries and others not covering their loads.

6.2 **Ymgynghoriad / Consultation**

Wedi peth trafod, gofynnwyd i'r clerc gwblhau'r ffurflen ar ran y Cyngor gan nodi'r prif bwyntiau a phryderon sydd wedi eu trafod dros y misoedd diwethaf.

Following a lengthy discussion, the clerk was asked to complete the feedback form on behalf of the Council noting the main points and concerns as discussed over the last few months.

7 Cyllid / Finance

Ni chafwyd cyfarfod ym Mawrth gan fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal i drafod y fferm arae haul. Cytuno byddai John Roberts yn archwilio'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol. Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

No meeting was held in March as a public meeting was arranged to discuss the solar farm. Agreed that John Roberts audit the accounts before they are presented to the external auditor. The following payments were approved:

£360.00 P Pritchard (drws/door)
£80.00 R Whitehead (mynwent/cemetery)
£63.50 E Parry (cyfieithu/translation)
£150.00 Neuadd Bentref/Village Hall (cadeiriau/chairs)
£250.00 SE Roberts (plinths)
£40.00 T Stober (toiledau/toilets)
£40.00 D Owen (tanwydd/fuel)
£40.00 D Vogel (glanhau/clearance)
£1404.00 MP Steel (harbwr/harbour)
£3516.00 MP Steel (pont/bridge)

8 Cynllunio / Planning

8.1 Penderfyniadau / Decisions

Ni fu diweddariad gan y Cyngor Sir am benderfyniadau ddiweddar.
There was no update from the County Council on recent planning decisions.

8.2 Ceisiadau / Applications

Roedd pump cais i'w trafod: /*There were five applications to discuss:*

- 1) Vikings, Cemaes – cefnogi/support
- 2) Woburn Hill – cefnogi/support
- 3) Brig y Don – cefnogi/support
- 4) Wylfa Newydd – dim sylwadau na gwrthwynebiad/*no observations or objection*
- 5) Tynnu cloddiau / hedgerow removal – dim gwrthwynebiad/*no objection*

8.3 Costau Cynllunio / Planning Costs

Daethpwyd at sylw'r Cyngor bod grwp yn y pentref wedi cyflwyno cais cynllunio i'r Cyngor Sir yn ol ym mis Hydref 2015 ac nad oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn arno. Erbyn hyn mae'r Cyngor Sir yn delio a'r cais ac am i'r grwp dalu y ffioedd cyfredol, sydd wedi codi yn sylweddol ers i'r cais gael eu cyflwyno. Cytuno gofyn i'r grwp anfon tystiolaeth i'r Cyngor Sir eu bod wedi cyflwyno'r cais yn yr Hydref ac felly mai dyna'r gost fydd i'w dalu. Bydd y Cyngorwyr Sirol yn gwneud ynholiadau os bydd angen.

It was brought to the Council's attention that a group in the village had presented a planning application to the County Council in October 2015 but no observations had been made. By now, the County Council are dealing with the application and request that the group pay the current fees (which have increased since the plans were submitted). Agreed to ask the group to send evidence to the County Council of their submission in October and the fees to be paid. The County Councillors will make enquiries if required.

9 Gohebiaeth / Correspondence

9.1 Horizon – diweddariadau a dyddiadau ar gyfer cymorthfeydd / *updates and dates for information sessions*

9.2 Llywodraeth Cymru – newidiadau i'r Cod Ymddygiad – mae copi o'r llythyr wedi ei ehostio at yr aelodau.

Welsh Government – changes to the Code of Conduct – a copy of the letter has been emailed to all members.

- 9.3** Deiseb gan drigolion lleol yn gofyn i'r Cyngor dorri coed yn y cae chwarae. Wedi ymweld a'r safle cytuno peidio torri'r coed gan eu bod yn diogelu'r tai rhag beli ac yn cynnig preifatrwydd i'r trigolion a defnyddwyr y cae chwarae.

Petition from local residents asking that trees are cut down in the play field. Following a site visit it was agreed not to cut the trees as they safeguard the properties from balls and offer privacy to both the residents and those using the play area.

10 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

10.1 Llyfrgelloedd / Libraries

Cafwyd gyfarfod siomedig yn y llyfrgell yn Amlwch. Nid oedd y wybodaeth gan y Cyngor Sir i allu ateb cwestiynnau'r rheini oedd yn bresennol ynglyn a chostau cynnal pob adeilad. Cytuno bod y llyfrgell yn Gemaes yn adnodd bwysig, yn enwedig i'r rheini sydd efallai heb fynediad i'r rhyngrwyd fel arall. Cytuno cynnal cyfarfod cyhoeddus i'r gymuned unwaith bydd y wybodaeth ar gael gan y Cyngor Sir i drafod y sefyllfa a gwahanol opsiynnau mewn manylder.

A disappointing meeting was held at the Amlwch library. The County Council did not have the information to hand to be able to answer the questions put forward by those present with regard to the cost of maintaining each building. Agreed that the Cemaes library is an important resource, especially for those who may not otherwise have access to the internet. Agreed to hold a public meeting for the community once the information is available from the County Council to be able to discuss the situation and different options in detail.

10.2 Maes Parcio / Car Park

Trafodwyd dyfodol y maes parcio a'r posibilrwydd o gael peiriannau talu ac arddangos. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu a'r Cyngor Sir am ddiweddariad o'r sefyllfa, ac hefyd i gynnwys y Maes Parcio ar agenda y cyfarfod nesaf.

The future of the car park and the possibility of pay and display machines was discussed. The clerk was asked to contact the County Council for an update of the situation, and to include the Car Park on the agenda for the next meeting.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Ebrill 18 2016.

The next full council meeting will be on Monday evening April 18 2016.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50 / *The meeting closed at 20.50.*